**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD PWYLLGOR DEDDFAU**

# RHEOLIADAU HADAU (FFIOEDD) (DIWYGIO) (CYMRU) 2000

## Cefndir

Mae'r ffioedd yn y Rheoliadau yn cyfeirio at godi tâl am arholiadau ar gyfer arolygwyr maes a samplwyr hadau. O dan Gyfarwyddebau Marchnata Hadau yr UE rhaid i'r prif hadau amaethyddol a llysieuol a werthir i'r cyhoedd gael tystysgrif swyddogol yn nodi eu bod yn cyfateb i'r safonau isaf. Yn y DU mae hyn wedi'i gyflawni gan Reoliadau wedi'u gwneud o dan Ddeddf Hadau a Isrywogaethau Planhigion 1964.

Mae'r Gweinidogaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (GAPB) yn gweithredu fel yr awdurdod tystio yng Nghymru a Lloegr. Er mwyn cyflawni'r gorchwylion a ofynnir gan y Rheoliadau rhaid i'r arolygwyr maes a samplwyr hadau gael trwydded o'r awdurdod tystio. I gael trwydded rhaid i unigolion eistedd a phasio arholiad priodol. Rhedir yr arholiadau gan Athrofa Genedlaethol Llysieuaeth Amaethyddol (AGLA).

Mae'r AGLA yn casglu'r ffioedd am yr arholiadau ac yn eu pasio I'r GAPB. Yn bresennol nid yw'r ffioedd wedi'u pennu o dan unrhyw reoliad statudol ond mae cyngor cyfreithiol wedi dangos fod pwerau statudol yn angenrheidiol ar gyfer codi'r ffioedd. Mae'r GAPB yn arwain y ffordd ar y pwnc hwn ac yn gweithredu yng Nghymru ar ran y Cynulliad.

## Rheol Sefydlog 11.5

Mae sylwadau a wnaethpwyd gan gynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi cael eu nodi a diwygiwyd y Rheoliadau o ganlyniad.

Ni nodwyd felly unrhyw bwyntiau fel rhai a oedd yn ddigon pwysig i gyfiawnhau eu hadrodd yn ffurfiol i'r Cynulliad i gymryd sylw arbennig.

-

-

**<u>Sylwadau ar y Rheoliadau</u>**

Fe fydd y troednodion yn ymddangos mewn ffurf dwy golofn yn y copi printiedig terfynol.


**DYLAN M HUGHES**

Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol

Pwyllgor Deddfau


**11eg Chwefror 2000**

Ein cyf: LAD-01-01-021

| CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU | NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES |
|---|---|
| **OFFERYNNAU STATUDOL** | **STATUTORY INSTRUMENTS** |
| **2000 Rhif (Cy. )** | **2000 No. (W. )** |
| **HADAU, CYMRU** | **SEEDS, WALES** |
| **Rheoliadau Hadau (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2000** | **The Seeds (Fees) (Amendment) (Wales) Regulations 2000** |
| **NODYN ESBONIADOL** | **EXPLANATORY NOTE** |
| *(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)* | *(This note is not part of the Regulations)* |
| Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru'n unig, yn diwygio Rheoliadau Hadau (Ffioedd) 1985 (fel y'u diwygiwyd). Mae'r diwygiad yn darparu ar gyfer codi ffioedd am arholiadau a eisteddir gan arolygwyr cnydau a samplwyr hadau (rheoliad 2). | These Regulations, which apply only to Wales, amend the Seeds (Fees) Regulations 1985 (as amended). The amendment provides for fees to be charged for examinations taken by crop inspectors and seed samplers (regulation 2). |

| OFFERYNNAU STATUDOL | | STATUTORY INSTRUMENTS |
|---|---|---|
| **2000 Rhif (Cy. )** | | **2000 No. (W. )** |
| **HADAU, CYMRU** | | **SEEDS, WALES** |
| **Rheoliadau Hadau (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2000** | | **The Seeds (Fees) (Amendment) (Wales) Regulations 2000** |

| Welsh | | English |
|---|---|---|
| **Wedi’u gwneud. . . 2000** | | **Made . . . . 2000** |
| **Yn dod i rym. . 7 Mawrth 2000** | | **Coming into force . .7 March 2000** |
| Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16 (1) ac (1A)(e) o Ddeddf Hadau ac Isrywogaethau Planhigion 1964***(a)*** ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol")***(b)***, ac wedi ymgyngori, yn unol ag adran 16(1) y cyfeiriwyd ati uchod, â chynrychiolwyr y buddiannau hynny a ymddengys i’r Cynulliad Cenedlaethol yn berthnasol, mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud y Gorchymyn canlynol : | | In exercise of the powers conferred by sections 16(1) and (1A)(e) of the Plant Varieties and Seeds Act 1964[(a)] and now vested in the National Assembly for Wales ("the National Assembly")[(b)], after consultation in accordance with the said section 16(1) with representatives of such interests as appear to the National Assembly to be concerned, the National Assembly makes the following Order: |
| **Enwi, cychwyn a chymwyso** | | **Citation, commencement and application** |
| 1. Enw’r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hadau (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2000, maent yn gymwys i Gymru yn unig a deuant i rym ar 7 Mawrth 2000. | | 1. These Regulations may be cited as the Seeds (Fees) (Amendment) (Wales) Regulations 2000, shall apply to Wales only and shall come into force on 7 March 2000. |
| **Diwygio** | | **Amendment** |
| • Ar ddiwedd Atodlen 6 i Reoliadau Hadau (Ffioedd)1985***(c)*** mewnosoder y geiriau canlynol - | | 2. At the end of Schedule 6 to the Seeds (Fees) Regulations 1985 [(c)] the following wording shall be inserted – |

"**C.** Examination fees***(ch)(d)***

| | | |
|---|---|---|
| (i) Examination for crop<br>inspector in respect of | | |
| - cereals,<br>- field beans, field peas<br>and pulses, or<br>- grasses and herbage<br>legumes, | | |
| (a) examination | Before the examination | 142.80 (-) |
| (b) re-sit examination (other than cereals) | Before the examination | 142.80 (-) |
| (c) re-sit of either part of cereals examination | Before the examination | 71.40 (-) |
| (d) re-test | Before the examination | 71.40 (-) |

| | | |
|---|---|---|
| (ii) Examination for crop inspector in<br>respect of | | |
| | | |
| - sugar beet, or<br>- Fodder and oil crucifers;<br>turnips; fodder beet and<br>mangels; flax and linseed; soya<br>bean, | | |
| (a) examination<br>(b) re-sit of examination<br>(c) re-test | Before the examination<br>Before the examination<br>Before the examination | 89.25 (-)<br>89.25 (-)<br>71.40 (-) |
| | | |
| (iii) Examination for seed sampler | Before the examination | 89.25 (-)". |

| | | |
|---|---|---|
| Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*(d)* | | Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998[(e)] |
| | | |
| **2000** | | **2000** |
| **Y Llywydd** | | **The Presiding Officer** |